**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar**
**Dydd Mercher 10 Mai 2017**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Jenny Rathbone AC | *Aelod Cynulliad* |
| Suzy Davies AC | *Aelod Cynulliad* |
| Huw Irranca Davies AC | *Aelod Cynulliad* |
| Christian Webb | *Swyddfa Simon Thomas* |
| Jack Sellers | *Swyddfa David Melding* |
| Proctor Bethan | *Swyddfa Jenny Rathbone* |
| Peter Wong | *Swyddfa Jenny Rathbone* |
| Amber Tatton | *Swyddfa Jenny Rathbone* |
| Amber Wheeler | *Prifysgol De Cymru* |
| Katie Palmer | *Bwyd Caerdydd* |
| David Morris | *Llywodraeth Cymru* |
| Emma Williams | Ffederasiwn *Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol* |
| Rebecca Sandover | *Myfyriwr PhD, Prifysgol Exeter* |
| Dr. Ana Moragues Faus | *Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Caerdydd* |
| Sarah Thomas | *Swyddog Materion Cyhoeddus, Sefydliad y Merched* |
| Caroline Bovey | *Cymdeithas Ddeieteg Prydain* |
| Pamela Mason | *Ymgynghorydd Maeth Bwyd* |

## 1. Cyflwyniadau

Croesawodd Jenny Rathbone AC y rhai oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol Bwyd. Gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf, cytunwyd y byddai Jenny Rathbone yn cadeirio'r cyfarfod dros dro ac y byddai Bethan Proctor o'i swyddfa yn cymryd y cofnodion. Cytunodd y cynrychiolwyr o swyddfa David Melding a swyddfa Simon Thomas â hyn tra'r oeddent yn disgwyl am yr Aelodau Cynulliad eraill, a fyddai'n cyrraedd yn hwyr.

Esboniodd JR fod Grwpiau Trawsbleidiol wedi'u bwriadu i'w gwneud yn bosibl cynnal trafodaeth agored a chadarn am faterion sy'n berthnasol i waith y Cynulliad, a bod bwyd yn bwnc amlweddog sy'n cyffwrdd â llawer o feysydd polisi a deddfwriaeth.

## 2. Amber Wheeler / Prifysgol De Cymru - Outlook for Veg

Rhannodd Amber Wheeler rai o ganlyniadau ei hymchwil ar y diffyg llysiau a ffrwythau yng Nghymru, sef testun ei PhD ym Mhrifysgol De Cymru.

Mae'r ymgyrch '5 y Dydd' wedi bod yn bolisi cyhoeddus ers 2003; fodd bynnag, mae'r ganran o'r bobl yng Nghymru sy'n bwyta 5 dogn y dydd wedi gostwng, nid codi, o 39% i 32%. Nid yw wedi newid ymddygiad defnyddwyr. Unwaith y mae gwastraff bwyd o 20% - sef bwyd heb ei fwyta - wedi cael ei ystyried mae'n debygol y bydd y ganran yn yr ugeiniau uchel.
Dadleuodd mai dim ond un agwedd ar y system fwyd oedd Galw Defnyddwyr a bod angen rhoi sylw cyfartal i'r agweddau eraill wrth fynd i'r afael â'r argyfwng iechyd

cyhoeddus hwn. Mae pobl yn bwyta'r hyn a roddir o'u blaenau mewn modd goddefol heb sylweddoli faint maent yn ei fwyta.

**Beth allai gynyddu'r ganran sy'n bwyta ffrwythau a llysiau?**

Mae ymyrraeth mewn ysgolion wedi gweithio'n dda yn yr ysgolion; fodd bynnag, nid yw'n newid ymddygiad y tu allan i'r ysgol. Mae angen newid systemig, yn hytrach na chanolbwyntio ar addysg yn unig.

Mae Iechyd y Cyhoedd bellach yn argymell 7, yn hytrach na 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd sy'n llawer mwy nag y gallwn ei gynhyrchu. Cafodd y cyngor ei newid heb unrhyw drafodaeth gyda chynhyrchwyr bwyd ynghylch sut y gellir cyflawni hyn. Nid oes digon o ffrwythau a llysiau yn y system sydd naill ai'n cael eu cynhyrchu yn y DU neu'n cael eu mewnforio i ateb ein gofynion, hyd yn oed ar lefel o 5 y dydd. Ffrwythau ac, i raddau llai, Llysiau, sydd â'r diffyg masnach mwyaf o blith unrhyw fwyd.

Menter ar y cyd rhwng y Sefydliad Bwyd, Nourish Scotland, a WWF, i gynyddu'r ganran sy'n bwyta ffrwythau a llysiau.

Maent wedi cynhyrchu 'Fframwaith Ymrwymiadau', yn seiliedig ar ganlyniadau'r gweithdai gyda rhanddeiliaid ac adborth ar-lein. Y nod yw cael cefnogaeth gan y Llywodraeth, manwerthwyr a rhanddeiliaid eraill.

Bydd Pys Plîs yn lansio Uwchgynhadledd Llysiau yn adeilad y Pierhead ar 24 Hydref, gyda digwyddiadau cydamserol yn Glasgow a Llundain. Maent yn chwilio am addewidion gan enwau mawr – e.e. Prif Weithredwr Tesco, Greggs. Hefyd, maent am i ymchwiliad gael ei gynnal i arddwriaeth.

Mae yna ddigwyddiad hefyd yn Sioe Frenhinol Cymru ar 25 Gorffennaf. Y nod yw annog y gadwyn gyflenwi i siarad gyda'i gilydd.

**Cwestiynau:**

Huw Irranca-Davies AC - *Sut allwn ni sicrhau nad oes unrhyw effaith economaidd negyddol i ffermwyr da byw?*

Roedd Amber o'r farn ei bod hi'n anodd ymgysylltu ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr oherwydd yr effaith economaidd y bydd yn ei chael arnynt yn eu tyb hwy. Nid oes rhaid i gynhyrchu ffrwythau a llysiau niweidio'r farchnad da byw. Dim ond ychydig o dir y mae ei angen i dyfu ffrwythau a llysiau; gellir gwneud lle iddo rhwng y tir a ddefnyddir ar gyfer da byw yn hytrach na'i fod yn ei ddisodli.
Nid yw garddwriaeth fel sector yn cael cymhorthdal mawr, ac maent yn ceisio cyllid ar gyfer seilwaith, nid cymorthdaliadau, e.e. tai pacio, peiriannau a rhwydwaith dosbarthu ar gyfer tyfwyr.
Katie: Mae'n bwysig ystyried o safbwynt Brexit; bydd cig Cymru yn dod yn ddrutach i'w werthu yn Ewrop.

Emma: Mae angen tegwch i bawb; mae gan ffermydd mawr fecanweithiau cymorth penodol. Nid oes gan arddwriaeth, sydd ar ddarnau bach o dir yn bennaf, fynediad at y manteision hyn.

Amber Tatton - *Pa gymorth i ffermwyr ifanc ddatblygu garddwriaeth?*
Emma Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Tyfu Fyny a Tyfu Cymru . Mae rhaglenni uwchsgilio mewn garddwriaeth fasnachol. Mae angen Deorfeydd Ffermio lle gall ffermwyr gael hyfforddiant ar y tir.

David Morris: Mae cefnogaeth i'w chael ond nid ydynt yn adnabyddus. Lansiwyd grant newydd yn ddiweddar i fusnesau fferm – sydd o bosibl yn berthnasol i arddwriaeth.

**Iechyd y cyhoedd**

Katie: Nid oes arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru nac Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r amgylchedd bwyd. Mae pocedi o arfer da ar lefel leol, ond nid oes gweledigaeth polisi eang, yn wahanol i Loegr.

Sarah, Sefydliad y Merched - mae gan lawer o bobl y sgiliau coginio y mae eu hangen i gynyddu'r ganran sy'n bwyta ffrwythau a llysiau; mae angen mynd i'r afael â hyn. Bydd dirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn cael effaith ar hyn, gan y bydd angen dod o hyd i gyllid o rywle arall yn lle'r cyllid yr oedd y rhaglen yn ei ddarparu ar gyfer cyrsiau coginio.

Ana - Angen ystyried y berthynas rhwng siopau a chynhyrchwyr ffrwythau a llysiau annibynnol - mae rhai busnesau bach yn prynu eu stoc yn Lidl. Mae'r rhwydwaith cyflenwi gwan yn wan.

Nid yw manwerthwyr annibynnol yn cynhyrchu digon o arian i wneud bywoliaeth. Beth ellir ei wneud i'w gwneud yn fwy cynaliadwy?

David - Mae hyn yn wir yn achos manwerthwyr annibynnol yn gyffredinol, nid dim ond siopau ffrwythau a llysiau. Nid oes modd atal yr archfarchnadoedd. Ar y cyhoedd y mae'r bai yn bennaf gan nad ydym yn siopa digon mewn siopau bach. Gallai'r llwybr uwchdechnolegol - ffermio fertigol – fod yn ateb. Ffermio dan do, heb ddibynnu ar bridd. Mae'n addas ar gyfer safleoedd tir llwyd, lleoliadau gwledig. Mae'r cynnyrch yn apelio at archfarchnadoedd gan fod perygl clefydau a halogiad yn llai. Mae angen meddwl yn ochrol wrth gynyddu'r ganran sy'n bwyta ffrwythau a llysiau.

Mae angen dod â chyrff arlwyo ynghyd i gael ymrwymiad ganddynt.

3. **Pynciau a awgrymir ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol:**

- Caffael lleol mewn ardaloedd o amddifadedd - awgrymodd Suzy Davies AC ein bod yn gwahodd busnes ffrwythau a llysiau organig llwyddiannus yng

nghymuned Pontardawe yn y cymoedd. Cytunwyd ar hynny mewn egwyddor ar gyfer y cyfarfod nesaf.

- Huw Thomas o Puffin Produce - a ellid datblygu busnes tebyg i'r busnes llwyddiannus hwn mewn mannau eraill?

- Cydweithfeydd bwyd - mae rhai wedi bod yn llwyddiannus, nid yw eraill wedi bod yr un mor llwyddiannus. Beth oedd y rhwystrau?

- Ciniawau Ysgol – Gwasanaeth prydau ysgol patrymol Sir y Fflint a ardystiwyd gan Gymdeithas y Pridd.

4. **Nawdd i'r Grŵp Trawsbleidiol**. Soniodd David y gallai Sara Jones, Pennaeth Consortiwm Manwerthu Cymru, helpu i ganfod manwerthwr a allai gefnogi.

**5. Y cyfarfod nesaf:**

3, 4, 17 neu 18 Hydref. (*Bethan i gysylltu â'r Cynulliad i weld pa ystafell sydd ar gael.)